Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**







# Deall graddau: Canllaw i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd

WG51926 ISBN digidol 978-1-83715-498-2

# Deall graddau: Canllaw i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd


## Beth sy'n newid?

O 1 Ebrill 2025, bydd pob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref a gaiff ei arolygu yng Nghymru yn cael graddau.

Bydd yn ofyniad cyfreithiol i'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn arddangos eu graddau yn eu safle.

NID oes rhaid i'r gwasanaethau canlynol arddangos graddau yn eu safle:

- Gwasanaethau ar gyfer pobl dan 18 oed.
- Gwasanaethau bach â 4 preswylydd neu lai.
- Gwasanaethau cymorth cartref lle:
  - Nad yw lleoliad y gwasanaeth yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd.
  - Darperir y gwasanaeth o gartref preifat unigolyn.



# Deall y pedair thema


Bydd gwasanaethau yn derbyn un o'r graddau canlynol:

- Rhagorol
- Da
- Rhaid gwella
- Rhaid gwella'n sylweddol

Bydd rhain yn cael eu cymhwyso i bedair thema:

- Sut mae pobl yn cael eu cefnogi i fod yn ddiogel, yn hapus ac yn iach.
- Sut y caiff dewisiadau ac annibyniaeth eu parchu.
- Sut y mae pobl yn cadw mewn cysylltiad ag eraill.

- Pa mor dda y caiff anghenion y bobl eu diwallu.
- Sut y caiff urddas a hawliau eu diogelu.
  Sut y caiff diogelwch ei gynnal.




- Pa mor gyfforddus a diogel yw'r adeilad.
- Pa mor dda y caiff popeth ei gynnal a'i gadw.
- Sut y mae'r lle yn hwyluso annibyniaeth.

- Pa mor dda y caiff y gwasanaeth ei redeg.
- Sut y caiff y staff eu cefnogi.
- Sut mae'r gwasanaeth yn gwella'n barhaus.

## Ble y byddwch chi'n gweld graddau?

- Ar bosteri mewn cartrefi gofal.
- Ar wefannau gwasanaethau gofal.
- Yn adroddiadau arolygu AGC.
- Ar gyfeiriadur ar-lein AGC.

## Sut mae graddau yn eich helpu chi:

**Cipolwg cyflym:**
Mae graddau yn rhoi syniad i chi ar unwaith o ansawdd y gofal y gallwch ei ddisgwyl gan wasanaeth.

**Hyder wrth ddewis:**
Mae graddau yn ei gwneud hi'n haws i chi ddewis gwasanaeth gofal sy'n addas i chi neu aelod o'ch teulu.

**Llywio gwelliant parhaus:**
Mae graddau yn annog darparwyr gofal i wella eu gwasanaethau, gan sicrhau bod y rhai sy'n cael gofal yn gallu ffynnu.

## Eich hawliau

- Gweld y graddau.
- Gofyn cwestiynau amdanynt.
- Rhoi adborth.
- Codi pryderon os oes angen.

## Cael rhagor o wybodaeth

- Gofynnwch i'ch darparwr gofal.
- Ewch i wefan AGC.
- Siaradwch â'ch gweithiwr cymdeithasol.
- Cysylltwch â gwasanaethau eirioli.